



Department
for Environment
Food & Rural Affairs

Ymgynghoriad Marcio Nwyddau Manwerthu

Dyddiad: Chwefror 2024

Ni yw Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig. Rydym yn gyfrifol am wella a diogelu'r amgylchedd, tyfu'r economi werdd, cynnal cymunedau gwledig ffyniannus a chefnogi ein diwydiannau bwyd, ffermio a physgota o'r radd flaenaf.

Rydym yn gweithio'n agos gyda'n 33 o asiantaethau a chyrrff hyd braich ar ein huchelgais i wneud ein haer yn burach, ein dŵr yn lanach, ein tir yn wyrddach a'n bwyd yn fwy cynaliadwy. Ein cenhadaeth yw adfer a gwella'r amgylchedd ar gyfer y genhedlaeth nesaf, a gadael yr amgylchedd mewn cyflwr gwell nag yr oedd hi.



© Hawlfraint y Goron 2023

Mae'r wybodaeth hon wedi ei thrwyddedu o dan Drwydded Llywodraeth Agored f3.0. I weld y drwydded hon, ewch i www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/government/publications

Dylid anfon unrhyw ymholiad ynghylch y cyhoeddiad hwn atom yn [nodwch fanylion cyswllt].

www.gov.uk/defra

Cynnwys

Cynnwys.....	3
Ynghylch yr ymgynghoriad hwn.....	4
Cynulleidfa.....	4
Ymateb i'r ymgynghoriad.....	5
Cyfnod ymgynghori.....	5
Cyfrinachedd a diogelu data.....	5
'Amdanoch chi'.....	7
Gwybodaeth am eich sefydliad chi.....	7
Cefndir.....	9
Sut bydd angen labelu cynnyrch ym Mhrydain Fawr?.....	10
Deall y polisi hwn.....	11
Masnach gyda Gogledd Iwerddon.....	12
Cydymffurfio a gorfodaeth.....	15
Dull gorfodi.....	16
Esemptiadau a chyfnodau trosiannol.....	19
Labelu ym Mhrydain Fawr.....	20
Effeithiau ehangach.....	26
Adborth Ymgynghoreion i'r Arolwg Ar-lein.....	32

Ynghylch yr ymgynghoriad hwn

Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am farn ar gynigion y llywodraeth i gyflwyno gofynion labelu 'nid ar gyfer yr UE' ar gyfer nwyddau ledled Prydain Fawr.

Drwy gydol y broses o gytuno ar Fframwaith Windsor a'i roi ar waith, mae Llywodraeth y DU wedi rhoi blaenoriaeth i ddiogelu lle integrol Gogledd Iwerddon yn y Deyrnas Unedig. Cymhelliant y Llywodraeth dros ymestyn gofynion labelu 'nid ar gyfer yr UE' ar draws Prydain Fawr yw cynnal parhad y cyflenwad i Ogledd Iwerddon.

Yn yr ymgynghoriad hwn, ystyr 'nwyddau' yw'r nwyddau manwerthu canlynol sy'n cael eu danfon mewn terfynellau dosbarthu, fel y canlynol:

- cynhyrchion sy'n deillio o anifeiliaid neu blanhigion
- planhigion ar wahân i blanhigion y bwriedir eu plannu
- cynhyrchion cyfansawdd
- bwydydd eraill
- deunyddiau sy'n dod i gyswllt â bwyd
- bwyd anifeiliaid anwes ac eitemau i'w cnoi sy'n barod i'w gwerthu

Mae terfynellau dosbarthu yn cynnwys y canlynol:

- manau sy'n dosbarthu nwyddau manwerthu ar dymereddau a reolir
- canolfannau dosbarthu i archfarchnadoedd
- busnesau cyfanwerthu
- y manau gwerthu
- busnesau sy'n dosbarthu'n uniongyrchol i'r defnyddiwr olaf, gan gynnwys gweithredwyr arlwyyo, ffreuturau ffatrioedd, arlwywyr mewn ysbytai, cartrefi gofal a charchardai, bwytai a gweithredwyr a siopau gwasanaethau bwyd eraill

Gweler y [rhestr o nwyddau manwerthu](#) sy'n dod o fewn cwmpas y cynllun labelu

Cynulleidfa

Rydym yn croesawu safbwyntiau'r holl randdeiliaid sydd â diddordeb, gan gynnwys:

- busnesau
- sefydliadau sy'n cynrychioli busnesau
- awdurdodau lleol
- swyddogion gorfodaeth
- cyrff masnach

- sefydliadau anllywodraethol
- ymgynghorwyr
- sefydliadau trydydd sector
- aelodau o'r cyhoedd

Ymateb i'r ymgynghoriad

A fydddechystal ag ymateb i'r ymgynghoriad hwn yn un o'r ffyrdd canlynol;

- Ar-lein gan ddefnyddio canolbwynt ymgynghori Citizen Space yn Defra [Ymgynghoriad Marcio Nwyddau Manwerthu - Defra - Citizen Space](#)

Y ffordd orau i ni gael ymatebion yw drwy'r llwyfan Citizen Space. Os nad ydych chi'n gallu defnyddio Citizen Space, gallwch lwytho'r dogfennau ymgynghori i lawr a dychwelyd eich ymateb drwy e-bost i:

- markingofretailgoods.consultation@defra.gov.uk

Cyfnod ymgynghori

Bydd yr ymgynghoriad hwn yn dod i ben ar 15 Mawrth 2024.

Cyfrinachedd a diogelu data

Bydd crynodeb o ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn cael ei gyhoeddi ar wefan y llywodraeth yn: <http://www.gov.uk/defra>. Bydd atodiad i'r crynodeb o'r ymgynghoriad yn rhestru'r holl sefydliadau a ymatebodd ond ni fydd yn cynnwys enwau personol, cyfeiriadau na manylion cyswllt eraill.

Efallai y bydd Defra yn cyhoeddi cynnwys eich ymateb i'r ymgynghoriad hwn er mwyn iddo fod ar gael i'r cyhoedd. Ni fyddant yn cynnwys eich enw a'ch manylion cyswllt.

Os byddwch yn clicio ar 'ydw' wrth ateb y cwestiwn sy'n gofyn a hoffech gadw unrhyw ran o'ch ymateb yn gyfrinachol, gofynnir i chi nodi'n glir pa wybodaeth yr hoffech ei chadw'n gyfrinachol ac egluro eich rhesymau dros gadw cyfrinachedd. Y rheswm am hyn yw y gallai gwybodaeth mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn gael ei rhyddhau i'r cyhoedd neu i bartïon eraill yn unol â'r gyfraith mynediad at wybodaeth (yn bennaf, Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004, Deddf Rhyddid

Gwybodaeth 2000, a Deddf Diogelu Data 2018). Mae gennym ymrwymïadau, yn bennaf o dan y Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol, Deddf Rhyddid Gwybodaeth a Deddf Diogelu Data, i ddatgelu gwybodaeth i dderbynyddion penodol neu'r cyhoedd mewn amgylchiadau penodol. Oherwydd hyn, byddai eich esboniad dros ofyn am gadw eich ymateb cyfan neu ran ohono yn gyfrinachol yn ein helpu i gydbwysu'r ymrwymïadau hyn i ddatgelu yn erbyn unrhyw ymrwymïad o ran cyfrinachedd. Os byddwn yn cael cais i gadw'r wybodaeth a ddarparwyd gennych yn eich ymateb i'r ymgynghoriad hwn yn gyfrinachol, byddwn yn rhoi ystyriaeth lawn i'ch rhesymau dros ofyn am gadw eich ymateb yn gyfrinachol, ond ni allwn sicrhau y gellir cadw cyfrinachedd ym mhob sefyllfa.

Os byddwch yn clicio ar 'nac ydw' wrth ateb y cwestiwn sy'n gofyn a hoffech gadw unrhyw ran o'ch ymateb yn gyfrinachol, byddwn yn gallu rhyddhau cynnwys eich ymateb i'r cyhoedd ond ni fydd eich enw personol na'ch manylion cyswllt preifat ar gael i'r cyhoedd. Ni fydd eich enw na'ch manylion cyswllt ar gael i'r cyhoedd.

Efallai y bydd adegau pan fydd Defra yn rhannu'r wybodaeth rydych chi'n ei darparu mewn ymateb i'r ymgynghoriad, gan gynnwys unrhyw ddata personol, â dadansoddwyr allanol. Mae hyn at ddibenion dadansoddi'r ymatebion i'r ymgynghoriad a darparu adroddiad ar y crynodeb o'r ymatebion yn unig.

Mae ein hysbysiad preifatrwydd diweddaraf wedi'i lwytho i fyny fel dogfen gysylltiedig ochr yn ochr â'n dogfen ymgynghori. Defra yw'r rheolydd data mewn perthynas ag unrhyw ddata personol y byddwch yn eu darparu. Mae [Siarter Gwybodaeth Personol Defra](#) yn rhoi manylion eich hawliau mewn perthynas â thrin data personol.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn cael ei gynnal yn unol ag [egwyddorion ymgynghori'r llywodraeth](#).

Os oes gennych unrhyw sylwadau neu gwynion ynghylch y broses ymgynghori, anfonwch nhw drwy e-bost at: consultation.coordinator@defra.gov.uk

A fydddech chi'n hoffi i'ch ymateb fod yn gyfrinachol, o dan y telerau a ddiffinnir uchod?

- Byddwn
- Na fyddwn

Os byddech, eglurwch pam:

[Testun agored]

'Amdanoch chi'

Pa un o'r canlynol sy'n eich disgrifio chi orau?

- Rwy'n aelod o'r cyhoedd sy'n ymateb i'r ymgynghoriad hwn er fy niddordeb fy hun
- Rwy'n aelod o'r cyhoedd sy'n ymateb ar ran ymgyrch neu ddeiseb
- Rwy'n ymateb ar ran busnes
- Rwy'n ymateb ar ran sefydliad sy'n cynrychioli busnesau
- Rwy'n swyddog gorfodaeth, yn swyddog safonau masnach, yn rheolwr perthnasoedd awdurdod sylfaenol neu'n swyddog tebyg
- Rwy'n cynrychioli corff cynghori yn y sector preifat
- Arall - rhowch fanylion

Beth yw eich enw llawn? Os ydych chi'n cynrychioli sefydliad, gofynnir i chi am ei enw yn nes ymlaen.

Beth yw eich cyfeiriad e-bost?

Gwybodaeth am eich sefydliad chi

Beth yw enw'r sefydliad rydych chi'n ei gynrychioli?

Pa fath o sefydliad ydych chi'n ei gynrychioli? Dewiswch bob un sy'n berthnasol.

- cynhyrhydd primaidd
- gwneuthurwr
- cyflenwr
- cyfanwerthwyr
- cludwr
- logisteg
- manwerthwr
- sefydliad sy'n cynrychioli busnesau
- corff gorfodaeth
- awdurdod lleol
- arall - rhowch fanylion

Beth yw maint eich sefydliad?

- meicro (1 i 9 o weithwyr)
- bach (10 i 49 o weithwyr)
- canolig (50 i 249 o weithwyr)
- mawr (250+ o weithwyr)

Os ydych yn ymateb ar ran cymdeithas, sawl aelod y mae eich sefydliad yn eu cynrychioli?

- 0 i 9
- 10 i 100
- 101 i 250
- 251 i 1,000
- 1,001 i 5,000
- 5,001 i 10,000
- dros 10,000
- ddim yn gwybod
- ddim yn berthnasol

Pa fathau o nwyddau bwyd-amaeth ydych chi'n eu gwerthu neu'n darparu gwasanaethau ar eu cyfer? Dewiswch bob un sy'n berthnasol.

- cig a chynnyrch cig
- cynnyrch llaeth
- pysgod neu gynhyrchion pysgodfeydd
- cynhyrchion eraill sy'n dod o anifeiliaid, er enghraifft – wyau, mêl
- ffrwythau, llysiau a chynnyrch planhigion bwytadwy
- planhigion nad ydynt wedi'u bwriadu ar gyfer plannu, er enghraifft - hadau, blodau wedi'u torri
- brasterau ac olewau anifeiliaid neu llysiau
- cynhyrchion cyfansawdd
- diodydd, er enghraifft - diodydd ysgafn, alcohol a dŵr
- cynhyrchion i'w cadw ar dymheredd ysgafell, er enghraifft - pasta, bara
- bwyd anifeiliaid anwes ac eitemau i'w cnoi sy'n barod i'w gwerthu
- cynhyrchion wedi'u rhewi
- ddim yn berthnasol
- bwyd arall nad yw'n fwyd amaeth - rhowch fanylion

Ble mae eich sefydliad chi wedi'i gofrestru? Dewiswch bob un sy'n berthnasol.

- Lloegr
- Yr Alban
- Cymru
- Gogledd Iwerddon
- Gweriniaeth Iwerddon
- Yr Undeb Ewropeaidd, ac eithrio Gweriniaeth Iwerddon (rhowch fanylion)
- Gweddill y byd (rhowch fanylion)

Beth oedd cyfanswm eich refeniw ar gyfer blwyddyn ariannol 2022?

Cyfeiriwch at refeniw a gynhyrchir yn y DU yn unig, sef Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon.

- [Testun agored]

A yw eich sefydliad wedi anfon nwyddau, neu wedi darparu gwasanaethau, i'r rhanbarthau daearyddol canlynol yn ystod y 12 mis diwethaf?

Ar gyfer pob rhanbarth daearyddol y buoch yn masnachu â nhw, yn y golofn olaf, nodwch amcangyfrif o gyfran o refeniw eich busnes oedd yn ymwneud â'r rhanbarth hwn yn y 12 mis diwethaf.

	Do	Naddo	Ddim yn siŵr	% y refeniw
Prydain Fawr (Cymru, Lloegr neu'r Alban)				
Gogledd Iwerddon				
Gweriniaeth Iwerddon				
Yr Undeb Ewropeaidd, ac eithrio Gweriniaeth Iwerddon				
Gweddill y byd				

Cefndir

Beth yw Fframwaith Windsor a pham mae'n golygu fod angen labeli 'nid ar gyfer yr UE'?

Mae Fframwaith Windsor yn cyfeirio at y trefniadau ar gyfer masnachu ym marchnad fewnol y DU ar ôl i'r Deyrnas Unedig adael yr Undeb Ewropeaidd. Mae'r fframwaith yn hwyluso symudiad nwyddau rhwng Prydain Fawr (Cymru, Lloegr a'r Alban) a Gogledd Iwerddon.

Cadarnhaodd llywodraeth y DU drefniadau newydd yn y [papur gorchymyn](#) "Windsor Framework: a new way forward", a oedd yn darparu hawddfreintiau ar gyfer symud nwyddau rhwng Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon.

Roedd hyn yn cynnwys ffordd newydd o symud nwyddau manwerthu wedi'u pecynnu ymlaen llaw o Brydain Fawr i Ogledd Iwerddon. Yr enw ar y Cynllun hwn yw [Cynllun Symudiadau Manwerthu Gogledd Iwerddon \(NIRMS\)](#).

Mae NIRMS yn golygu y gellir symud nwyddau gyda llai o ofynion ardystio, gyda llai o archwiliadau gweledol ac mae'n bodloni safonau iechyd a diogelwch y cyhoedd yn y DU.

Yn y [papur gorchymyn "Diogelu'r Undeb"](#), fe wnaethom gyhoeddi ein bwriad i symud i system farchnad fewnol yn y DU. Drwy ein dull rheoli sy'n seiliedig ar risg ac ar wybodaeth, byddwn yn darparu cyfeiriad cyfreithiol clir i DAERA ac awdurdodau eraill llywodraeth y DU. Bydd hyn yn dileu unrhyw wiriadau ffisegol pan fydd nwyddau'n symud o fewn system farchnad fewnol y DU. O dan y trefniadau newydd hyn, bydd awdurdodau'r DU, fel bob amser, yn cadw'r gallu hanfodol i weithredu ar sail gwybodaeth benodol am drosedd – fel camddefnyddio'r cynllun, smyglo neu'r risg o glefydau.

Mae'r cynllun hwn yn cynnwys gofynion gwahanol ar gyfer labelu cynhyrchion unigol a labelu ar lefel blychau, yn ogystal ag arddangos arwyddion mewn safleoedd manwerthu yng Ngogledd Iwerddon.

Bydd y gofynion hyn yn cael eu cyflwyno drwy 3 cham a restrir isod:

- Cam 1 (Hydref 2023) – Rhaid cael labeli unigol ar bob eitem unigol o gig a rhai cynhyrchion llaeth. Yn ogystal, rhaid labelu pob cynnyrch arall ar lefel y blwch.
- Cam 2 (Hydref 2024) – Yn ogystal â'r cynnyrch sydd o fewn cwmpas cam 1, rhaid cael labeli unigol ar bob eitem o gynnyrch llaeth. Rhaid labelu pob cynnyrch arall ar lefel blwch.
- Cam 3 (Gorffennaf 2025) - Yn ychwanegol at gamau 1 a 2, rhaid cynnwys labeli unigol ar lawer o gynhyrchion eraill gan gynnwys cynhyrchion cyfansawdd, ffrwythau, llysiau a physgod. Rhaid labelu pob cynnyrch arall ar lefel blwch.

Sut bydd angen labelu cynnyrch ym Mhrydain Fawr?

Rydym yn cynnig cyflwyno gofynion labelu 'nid ar gyfer yr UE' ym Mhrydain Fawr mewn 2 gam. Mae'r rhain yr un gofynion labelu ar lefel cynnyrch â'r rheini sy'n ofynnol gan NIRMS fel a ganlyn:

- o 1 Hydref 2024 ymlaen, bydd angen labelu pob eitem o gig a chynnyrch llaeth yn unigol (o 1 Gorffennaf 2025 ymlaen, bydd hyn yn cael ei ehangu i'r holl nwyddau manwerthu sydd o fewn cwmpas Rheoliad (UE) 2023/1231)
- mae nifer sylweddol o nwyddau wedi'u heithrio rhag unrhyw fath o labelu - [gweler y rhestr o nwyddau sydd wedi'u heithrio rhag cael eu labelu](#)
- ni fydd unrhyw ofynion labelu o unrhyw fath ar lefel blwch na silff ar gyfer nwyddau a werthir ym Mhrydain Fawr

Mae hyn yn ofyniad er mwyn rhoi eitemau ar y farchnad, sy'n golygu, er mwyn gwerthu rhai nwyddau ym Mhrydain Fawr, bod yn rhaid rhoi labeli 'nid ar gyfer yr UE'

arfaethedig i'r labeli						
Rwy'n deall sut y byddai disgwyl i'm busnes wneud y newidiadau arfaethedig i'r labeli						
Rwy'n deall beth mae labelu 'nid ar gyfer yr UE' yn ei olygu						

C1a. Os ydych chi wedi anghytuno ag unrhyw un o'r datganiadau uchod, esboniwch pam.

- Testun agored

C1b. A oes unrhyw beth y gall y llywodraeth ei wneud i wella eich dealltwriaeth?

- Testun agored

Mae'r cwestiynau sy'n weddill yn gofyn am wybodaeth am fasnach gan fusnesau, safbwyntiau ar gydymffurfiaeth, gorfodaeth ac eithriadau, ac effeithiau posibl ar fusnesau. Hoffech chi ymateb i'r cwestiynau hyn?

- Hoffwn (Ewch i'r adran Masnach gyda Gogledd Iwerddon)
- Na hoffwn (Ewch i'r adran Adborth)

Masnach gyda Gogledd Iwerddon

C2. A yw eich busnes wedi cofrestru ar gyfer Cynllun Symudiadau Manwerthu Gogledd Iwerddon (NIRMS)? Mae NIRMS yn ffordd newydd, symlach o symud nwyddau manwerthu wedi'u pecynnu ymlaen llaw o Brydain Fawr i Ogledd Iwerddon (lle mae'r defnyddiwr terfynol yng Ngogledd Iwerddon). Dechreuodd ar 1 Hydref 2023.

- Ydy, mae fy musnes wedi cofrestru ar gyfer NIRMS
- Nac ydy, dydy fy musnes ddim wedi cofrestru ar gyfer NIRMS eto ond mae'n bwriadu gwneud hynny

- Nac ydy, dydy fy musnes ddim wedi cofrestru ar gyfer NIRMS ac nid yw'n bwriadu gwneud hynny
- Ddim yn gwybod
- Ddim yn berthnasol

C3. A yw eich busnes yn defnyddio Cynllun Symudiadau Manwerthu Gogledd Iwerddon (NIRMS) i symud nwyddau i Ogledd Iwerddon?

- Ydy, mae fy musnes wedi bod yn defnyddio NIRMS ar gyfer ein holl nwyddau
- Ydy, mae fy musnes wedi bod yn defnyddio NIRMS ond dim ond ar gyfer rhai o'n nwyddau
- Ydy, mae fy musnes wedi defnyddio NIRMS ar gyfer rhai o'n nwyddau, gyda'r bwriad o gynyddu ein defnydd yn y dyfodol
- Nac ydy, dydy fy musnes ddim yn defnyddio NIRMS ar gyfer nwyddau ar hyn o bryd, ond mae'n bwriadu gwneud hynny yn y dyfodol
- Nac ydy, nid yn uniongyrchol, ond mae busnesau yn ein cadwyn gyflenwi wedi bod yn defnyddio NIRMS ar gyfer ein nwyddau cymwys
- Nac ydy, nid oes gan fy musnes unrhyw fwriad i ddefnyddio NIRMS
- Ddim yn gwybod
- Ddim yn berthnasol

C3a. A yw eich busnes eisoes wedi gweithredu newidiadau labelu 'nid ar gyfer yr UE' ar lefel cynnyrch ar gyfer nwyddau sy'n cael eu gwerthu o Brydain Fawr i Ogledd Iwerddon, o dan Gynllun Symudiadau Manwerthu Gogledd Iwerddon?

- Ydy - yr holl nwyddau bwyd-amaeth a fwriedir ar gyfer Gogledd Iwerddon
- Ydy - yr holl nwyddau Cam 1 sy'n mynd i Ogledd Iwerddon (cig a rhywfaint o gynnyrch llaeth)
- Ydy - yr holl nwyddau cam 1 a cham 2 sy'n mynd i Ogledd Iwerddon (cig a chynnyrch llaeth)
- Nac ydy
- Ddim yn gwybod
- Ddim yn berthnasol

C3b. Beth mae Cynllun Symudiadau Manwerthu Gogledd Iwerddon (NIRMS) wedi'i olygu i'ch gweithrediadau busnes mewn perthynas â symud nwyddau i Ogledd Iwerddon?

Sefydlwyd y Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol i ddarparu dull rheoli swyddogol unffurf, gan gynnwys bioddiogelwch a gwiriadau glanweithdra a ffytoiachydol, ar draws y gadwyn gyflenwi bwyd-amaeth. Mae'n caniatáu i aelodau o'r farchnad sengl fod yn sicr bod yr awdurdodau cymwys yn cynnal rheolaethau mewn modd digon trwyadl a diduedd.

[Rhagor o wybodaeth am reoliadau rheolaethau swyddogol \(anifeiliaid, bwyd anifeiliaid, bwyd a ffioedd iechyd planhigion\) 2019.](#)

- Mae fy musnes wedi parhau i werthu ein holl gynnyrch i Ogledd Iwerddon gan ddefnyddio NIRMS yn lle'r Cynllun Dros Dro ar gyfer Symudiadau Bwyd-Amaeth i Ogledd Iwerddon (STAMNI)
- Mae fy musnes wedi parhau i werthu ein holl gynnyrch i Ogledd Iwerddon gan ddefnyddio [Rheoliadau Rheolaeth Swyddogol](#) (OCR) llawn, y 'lôn goch')
- Mae fy musnes wedi parhau i werthu ein holl gynnyrch i Ogledd Iwerddon gan ddefnyddio cyfuniad o NIRMS a OCR llawn sy'n gweddu anghenion fy musnes.
- Mae fy musnes wedi lleihau'r amrywiaeth o gynnyrch y mae'n eu gwerthu yng Ngogledd Iwerddon
- Mae fy musnes wedi rhoi'r gorau i werthu i Ogledd Iwerddon neu wedi tynnu pob cynnyrch o farchnad Gogledd Iwerddon
- Mae fy musnes wedi aildechrau cyflenwi cynnyrch i Ogledd Iwerddon gan ddefnyddio NIRMS ar ôl oedi yn dilyn ymadael â'r UE
- Ddim yn gwybod
- Ddim yn berthnasol
- Arall (rhowch fanylion)

C3c. Pa ran, os o gwbl, sydd gan ofynion labelu 'nid ar gyfer yr UE' Cynllun Symudiadau Manwerthu Gogledd Iwerddon (NIRMS) ar benderfyniad eich busnes i ddefnyddio neu beidio â defnyddio NIRMS?

Os nad yw NIRMS yn berthnasol i weithrediadau eich busnes, dewiswch 'ddim yn berthnasol'.

- Nid yw fy musnes yn defnyddio NIRMS, a'r gofynion labelu yw'r unig reswm dros hyn
- Nid yw fy musnes yn defnyddio NIRMS, ac mae'r gofynion labelu yn un o blith nifer o resymau am hyn
- Nid yw fy musnes yn defnyddio NIRMS, ac nid y gofynion labelu yw'r rheswm dros hyn
- Nid yw fy musnes yn defnyddio NIRMS, ac nid y gofynion labelu yw'r reswm dros hyn
- Ddim yn berthnasol
- Arall - rhowch fanylion

C3d. A fyddai cyflwyno labeli 'nid ar gyfer yr UE' ledled Prydain Fawr yn gwneud eich busnes yn fwy neu'n llai tebygol o ddefnyddio Cynllun Symudiadau Manwerthu Gogledd Iwerddon?

- Llawer mwy tebygol
- Ychydig yn fwy tebygol
- Ddim yn debygol nac yn annhebygol
- Ychydig yn llai tebygol
- Llawer llai tebygol

- Ddim yn berthnasol

C4. Os yw eich busnes eisoes wedi gwneud y newidiadau labelu sy'n ofynnol i ddefnyddio Cynllun Symudiadau Manwerthu Gogledd Iwerddon, a yw eich busnes wedi wynebu unrhyw gostau y tu hwnt i gostau arferol i newid labeli?

- Do (Ewch i C4a - d)
- Naddo (Ewch i'r adran Cydymffurfio a gorfodaeth)
- Ddim yn gwybod (Ewch i'r adran Cydymffurfio a gorfodaeth)
- Ddim yn berthnasol (Ewch i'r adran Cydymffurfio a gorfodaeth)

C4a. Faint oedd y gost labelu untro ymlaen llaw ar gyfer eich busnes?

Y gost mewn £ [Ateb rhifol]

C4b. Faint yw'r costau parhaus a ragwelir ar gyfer eich busnes bob blwyddyn?

Y gost mewn £ [Ateb rhifol]

C4c. Faint o amser gymerodd eich busnes i gyflwyno'r newidiadau hyn?

[Testun agored]

C4d. Pa effaith gafodd y gwaith hwn o'i gyflwyno ar gostau llafur?

- Cynnydd
- Gostyngiad
- Dim newid

C4e. Sawl awr o lafur oedd y newid hwn yn ei olygu (os o gwbl)?

[Testun agored]

Cydymffurfio a gorfodaeth

Er mwyn sicrhau bod busnesau'n bodloni'r gofynion arfaethedig mewn ffordd effeithiol, bydd Defra'n datblygu polisi gorfodaeth sy'n galluogi camau rhesymol, cymesur a seiliedig ar risg, sy'n gyson ag arferion da.

Mae'r opsiynau canlynol yn cael eu hystyried:

1. Partneriaeth Awdurdod Sylfaenol

Gallai busnesau ymuno â phartneriaeth Awdurdod Sylfaenol a chael, a dilyn, cyngor rheoleiddio cyson a sicr.

- Mae Awdurdod Sylfaenol yn ffordd i fusnesau gael cyngor wedi'i deilwra'n benodol ar fodloni rheoliadau fel y rheini sy'n ymwneud ag iechyd yr amgylchedd, safonau masnach neu ddiogelwch tân drwy un pwynt cyswllt. Mae hyn yn sicrhau bod busnesau'n gwneud pethau'n iawn ar y dechrau ac

mae'n galluogi pob busnes i fuddsoddi'n hyderus mewn cynnyrch, arferion a gweithdrefnau, gan wybod bod yr adnoddau maen nhw'n eu neilltuo ar gyfer cydymffurfiaeth yn cael eu gwario'n dda. Mae'r Awdurdod Sylfaenol yn seiliedig ar bartneriaethau "Awdurdod Sylfaenol" cyfreithiol rhwng busnesau ac awdurdodau lleol unigol neu awdurdodau tân ac achub. Mae'n galluogi busnesau i dderbyn cyngor pwrpasol gan yr Awdurdod Sylfaenol mewn perthynas â chydymffurfio â deddfwriaeth sydd o fewn cwrpas y cynllun. Mae partneriaethau ar gael i unrhyw fath o fusnes, boed yn fusnes newydd neu sefydledig, yn ogystal â mathau eraill o sefydliadau megis cymdeithasau masnach.

Dyma'r 2 fath o bartneriaethau Awdurdod Sylfaenol:

- Partneriaethau uniongyrchol: Gall busnes ffurfio ei bartneriaeth uniongyrchol ei hun. Mae wedyn yn cael cyngor gan yr Awdurdod Sylfaenol wedi'i deilwra i'w anghenion penodol gan ei Awdurdod Sylfaenol (yr awdurdod lleol o'i ddewis).
- Partneriaethau cydlynol: Gall busnes berthyn i gymdeithas fasnach (neu fath arall o 'grŵp rheoledig') er mwyn elwa o bartneriaeth gydlynus ag Awdurdod Sylfaenol. Yn yr achos hwn, yr Awdurdod Sylfaenol sy'n darparu cyngor, ond mae'n cael ei rannu drwy'r gymdeithas fasnach, a'i deilwra i anghenion cyffredinol ei aelodau.

2. Hunan-adrodd

Gellid gofyn i fusnesau hunan-adrodd. Gallai hyn gynnwys llenwi holiadur sy'n cadarnhau cydymffurfiad neu anfon tystiolaeth ffotograffig o labeli at yr awdurdod cymwys neu'r corff gorfodaeth.

3. Archwiliadau dirybudd gan awdurdodau bwyd

Gallai swyddogion awdurdodau bwyd (mewn awdurdodau lleol) sy'n cynnal archwiliadau a gweithgareddau gorfodi eraill, naill ai fel rhan o arolygiadau bwyd arferol, neu lle mae cwynion neu wybodaeth arall yn dangos bod angen archwiliad.

Dull gorfodi

Er mwyn sicrhau cydymffurfiad â'r gofynion arfaethedig, gellid defnyddio amrywiaeth o opsiynau gorfodi i fynd i'r afael â diffyg cydymffurfiad.

Mae'r opsiynau canlynol yn cael eu hystyried:

1. Addysg

Os canfyddir nad yw busnes yn cydymffurfio, gall y swyddog awdurdodedig roi rhagor o wybodaeth a chyngor i'r busnes, fel llythyrau am faterion gorfodaeth, penderfynu ar y camau priodol i gydymffurfio, a chanllawiau pellach ar gydymffurfio.

2. Hysbysiadau gwella

Os canfyddir nad yw busnes yn cydymffurfio a bod rheswm gan y swyddog awdurdodedig i gredu na fydd dulliau eraill yn arwain at ganlyniad llwyddiannus, gall y swyddog awdurdodedig gyhoeddi hysbysiad gwella. Bydd hwn yn nodi'r drosedd sydd wedi'i chyflawni, y camau y disgwylir iddynt eu cymryd erbyn pryd, a beth fydd yn digwydd os na fyddant yn cymryd unrhyw gamau. Mae'n bosibl y caiff hysbysiad pellach ei gyhoeddi os methir â chydymffurfio â gofynion hysbysiad o fewn y cyfnod penodedig, neu gellir ei ystyried yn drosedd.

3. Cosbau sifil

Mae cosb sifil yn gosb ariannol am beidio â chydymffurfio. Gall yr awdurdod cymwys osod sancsiynau sifil ar fusnes y canfuwyd nad yw'n cydymffurfio. Gall gwerth y gosb ddibynnu ar raddau'r diffyg cydymffurfio.

Mae Defra yn deall y gall gymryd amser i fodloni gofynion labelu newydd. Rydym felly'n ystyried defnyddio hierarchaeth gorfodi i gefnogi busnesau ar lwybr tuag at gydymffurfiaeth.

Mae'r adran hon yn ymwneud â rheoliad 5 o'r Offeryn Statudol (SI) dangosol sydd wedi'i gynnwys yn yr ymgynghoriad hwn.

C5. Ydych chi'n ffafrio unrhyw opsiwn gorfodi?

(Dewiswch bob un sy'n berthnasol)

- Partneriaeth Awdurdod Sylfaenol
- Hunan-adrodd
- Archwiliadau dirybudd gan awdurdodau bwyd

C5a. Ydych chi'n deall beth yw Awdurdod Sylfaenol?

- Ydw
- Nac ydw

C5b. Ydych chi wedi ymrwymo i gynllun neu gytundeb ag Awdurdod Sylfaenol ar hyn o bryd?

- Ydw
- Nac ydw
- Ddim yn berthnasol

C5c. Ydych chi'n aelod o gymdeithas fasnach sydd wedi ymrwymo i gytundeb Awdurdod Sylfaenol?

- Ydw
- Nac ydw

- Ddim yn gwybod
- Ddim yn berthnasol

C5d. A fydddech chi'n fodlon ymrwymo i gytundeb Awdurdod Sylfaenol i gael cyngor pendant ar y polisi hwn?

- Byddwn
- Na fyddwn
- Ddim yn gwybod
- Ddim yn berthnasol

C6. Fydddech chi'n fodlon llenwi holiadur a darparu lluniau fel tystiolaeth bod gennych chi'r labeli gofynnol?

- Byddwn
- Na fyddwn
- Ddim yn berthnasol

C7. Rydym yn ystyried yr opsiynau canlynol ar gyfer achosion o ddiffyg cydymffurfio â'r polisi hwn. Nodwch a ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno bod y rhain yn ddulliau rhesymol a chymesur?

	Cytuno	Anghytuno
Addysg		
Hysbysiadau gwella		
Cosbau sifil		

Os ydych chi'n anghytuno ag unrhyw un o'r datganiadau uchod, esboniwch pam:

[Testun agored]

C8. A oes gennych chi unrhyw bryderon am ymarferoldeb cydymffurfio, o fewn yr amserlen?

(Os ydych chi'n ymateb ar ran awdurdod rheoleiddio, a fydddech cystal ag ymateb ynghylch a oes gennych chi unrhyw bryderon ynghylch gorfodi'r polisi hwn o fewn yr amserlen.)

- Oes
- Nac oes

Os oes, esboniwch pam:

[Testun agored]

C9. A oes gennych unrhyw argymhellion ynghylch sut y gellid annog cydymffurfiaeth?

[Testun agored]

C10. A ddylid cynnig cyfle i fusnesau gywiro'r rhan fwyaf o'r materion a nodwyd cyn ystyried camau gorfodaeth pellach?

- Dylid
- Na ddylid

Esboniwch eich ateb, os gwelwch yn dda:

[Testun agored]

C11. A oes unrhyw fesurau eraill i gynnig hyblygrwydd y gallai'r llywodraeth eu hystyried wrth ddatblygu ei threfn orfodaeth a fyddai'n eich helpu chi neu eich busnes i gydymffurfio â'r gofynion?

- Testun rhydd

Esemptiadau a chyfnodau trosiannol

Rydym yn cydnabod bod y gofynion labelu arfaethedig yn newid sylweddol i ddiwydiant ac y gallai'r mesurau arfaethedig yn y polisi hwn effeithio ar fusnesau mewn gwahanol ffyrdd.

Yn unol â'r dull safonol o gyflwyno cynlluniau domestig newydd, gan gynnwys y rhai a sefydlwyd drwy Fframwaith Windsor, rydym yn ystyried y ffordd orau o arfer hyblygrwydd yn ystod y cam gweithredu cychwynol. Y tu hwnt i'r eithriadau hynny y darparwyd ar eu cyfer eisoes gan Fframwaith Windsor ei hun (gweler [Gov.uk](https://www.gov.uk) am restr o eithriadau o dan NIRMS), mae'r llywodraeth yn cydnabod y gall rhai mathau o fusnesau ei chael yn fwy anodd, neu y gall fod yn fwy heriol i labelu rhai mathau o nwyddau, ac felly gall eithriadau hwyluso'r broses o roi'r gofynion hyn ar waith. Er enghraifft, cydnabyddir y gallai fod yn bosibl na fydd gan nifer o fusnesau bach a / neu leol sy'n cynhyrchu ac yn gwerthu bwyd, fel siopau fferm, yr adnoddau i roi'r newidiadau hyn ar waith.

Ar ben hynny, rydym yn ystyried defnyddio eithriadau ar gyfer busnesau bach a/neu ganolig eu maint (at ddibenion yr ymgynghoriad hwn, mae ein diffiniad o fusnesau bach a chanolig yn cyd-fynd â'r diffiniad yn adrannau 7(1) a 33(2) o Ddeddf Busnesau Bach, Menter a Chyflogaeth 2015). Mae hyn yn cyd-fynd ag ymrwymiad y llywodraeth i ddiogelu'r cwmnïau hyn a sicrhau mai'r DU yw'r lle gorau yn y byd i ddechrau busnes.

Ar ben hynny, rydym yn ystyried rhoi caniatâd i werthu nwyddau a roddwyd ar y farchnad ym Mhrydain Fawr cyn i'r darpariaethau ddod i rym barhau nes bydd y stoc wedi dod i ben.

Mae'r adran hon yn ymwneud â Rheoliad 4 a 6 o'r Offeryn Statudol dangosol sydd wedi'i gynnwys yn yr ymgynghoriad hwn.

C12. Pa effaith, os o gwbl, y gallai'r eithriadau arfaethedig eu cael ar eich busnes?

- Cadarnhaol iawn
- Gweddol gadarnhaol
- Ddim yn gadarnhaol nac yn negyddol
- Gweddol negyddol
- Negyddol iawn
- Ddim yn gwybod
- Ddim yn berthnasol

C12a. Pa effaith, os o gwbl, allai'r cyfnodau pontio arfaethedig eu cael ar eich busnes?

- Cadarnhaol iawn
- Gweddol gadarnhaol
- Ddim yn gadarnhaol nac yn negyddol
- Gweddol negyddol
- Negyddol iawn
- Ddim yn gwybod
- Ddim yn berthnasol

C12b. Eglurwch sut, os o gwbl, y gallai'r esemptiadau neu'r cyfnod pontio arfaethedig effeithio ar eich busnes?

[testun agored]

C13. A oes unrhyw nwyddau yn eich cadwyn gyflenwi a fyddai'n arbennig o heriol i'w labelu a'u heithrio?

[testun agored]

C14. A ddylid ystyried unrhyw esemptiadau rhannol eraill?

[testun agored]

Mae'r cwestiynau sy'n weddill yn ymwneud ag effeithiau posibl y polisi ar fusnesau. Hoffech chi ymateb i'r cwestiynau hyn?

- Hoffwn (Ewch i'r adran Labelu ym Mhrydain Fawr)
- Na hoffwn (Ewch i'r adran Adborth)

Labelu ym Mhrydain Fawr

C15. Ar hyn o bryd, a yw eich busnes eisoes yn cynhyrchu labeli gwahanol ar gyfer gwahanol farchnadoedd?

- Ydy
- Nac ydy
- Ddim yn berthnasol

C16a. Pe na bai angen newidiadau labelu 'nid ar gyfer yr UE' ledled Prydain Fawr, byddai fy musnes yn gwneud y newidiadau beth bynnag

- Cytuno'n gryf
- Cytuno i raddau
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno i raddau
- Anghytuno'n gryf
- Ddim yn berthnasol

C16b. A yw eich busnes eisoes wedi cyflwyno newidiadau labeli 'nid ar gyfer yr UE' ar lefel cynnyrch ar gyfer nwyddau sy'n cael eu gwerthu ym Mhrydain Fawr? Er enghraifft, a yw eich busnes eisoes wedi dechrau defnyddio labeli 'ddim ar gyfer yr UE' ar gyfer nwyddau sy'n 'aros' ym Mhrydain Fawr?

- Ydy – i'r holl nwyddau bwyd-amaeth
- Ydy – i bob cig a chynnyrch llaeth
- Ydy – i rywffaint o gig a chynnyrch llaeth
- Nac ydy
- Ddim yn gwybod
- Ddim yn berthnasol

C16c. Sut mae eich busnes yn bwriadu ymateb i'r gofyniad labelu 'nid ar gyfer yr UE' arfaethedig ledled Prydain Fawr? Dewiswch bob un sy'n berthnasol i chi.

- Mae fy musnes eisoes wedi gwneud y newidiadau gofynnol
- Mae fy musnes yn bwriadu ail-ddylunio deunydd pecynnu cynnyrch unigol i ychwanegu label 'nid ar gyfer yr UE'
- Mae fy musnes yn bwriadu rhoi sticeri gyda'r geiriau 'nid ar gyfer yr UE' dros labeli cynnyrch unigol
- Mae fy musnes yn bwriadu argraffu'r label 'nid ar gyfer yr UE' ar gynhyrchion unigol
- Mae fy musnes yn bwriadu rhoi'r gorau i gyflenwi cynnyrch i Brydain Fawr dros dro nes y gellir rhoi'r newidiadau angenrheidiol ar waith.
- Mae fy musnes yn bwriadu rhoi'r gorau i gyflenwi cynnyrch i Brydain Fawr yn barhaol.
- Dydw i ddim yn gwybod beth fydd fy musnes yn ei wneud
- Ddim yn berthnasol
- Arall - rhowch fanylion

C16d. Yn eich cadwyn gyflenwi, sut byddech chi'n disgwyl gwneud y newidiadau sydd eu hangen i fodloni'r gofynion labelu? Dewiswch bob un sy'n berthnasol i chi.

- Cyflenwr
- Gwneuthurwr neu brosesydd
- Manwerthwr

- Darparwr logisteg
- Arall - rhowch fanylion

C17. Ar gyfartaledd, ar gyfer pob cynnyrch y mae eich busnes yn ei werthu neu'n ei weithgynhyrchu, faint o linellau cynhyrchu ychwanegol y bydd angen i'ch busnes eu cyflwyno oherwydd y ddeddfwriaeth hon?

- Dim llinellau cynhyrchu ychwanegol
- Llai nag un llinell gynhyrchu ychwanegol (bydd angen llinell gynhyrchu ychwanegol ar gyfer rhai cynhyrchion, ond nid pob un)
- Un llinell gynhyrchu ychwanegol (bydd angen llinell gynhyrchu ychwanegol ar gyfer pob cynnyrch)
- Arall - rhowch fanylion

C17a. Pa ganran o unedau cadw stoc, neu linellau cynnyrch unigol, os o gwbl, y mae eich busnes yn rhagweld y bydd angen eu hail-labelu i fodloni'r gofynion labelu arfaethedig?

Mae uned cadw stoc (SKU), yn god alffaniwmerig y mae manwerthwr yn ei neilltuo i fath penodol o gynnyrch ar ôl iddo gyrraedd o ddsbarthwr neu warws er mwyn cadw golwg ar stoc. Os nad yw eich busnes yn defnyddio unedau cadw stoc, nodwch unedau cynnyrch unigol.

- Canran: _____.
- Dim
- Ddim yn gwybod
- Ddim yn berthnasol

C17b. Pa ganran o unedau cadw stoc, neu linellau cynnyrch unigol, os o gwbl, y mae eich busnes yn rhagweld allai gael eu tynnu'n ôl neu eu dadrestru o'r farchnad ym Mhrydain Fawr o ganlyniad i'r gofynion labelu arfaethedig?

- Canran: _____.
- Dim
- Ddim yn gwybod
- Ddim yn berthnasol

C17c. Pa gynhyrchion, os o gwbl, sydd fwyaf tebygol o gael eu tynnu'n ôl neu eu dadrestru o'r farchnad ym Mhrydain Fawr?

- Mae gan fy musnes gynnyrch dan fygythiad - rhowch fanylion
- Dim
- Ddim yn gwybod
- Ddim yn berthnasol

C18. Pa fath o gostau ariannol ychwanegol allai eich busnes eu hwynebu i gyflwyno gofynion labelu arfaethedig yn ystod yr amserlenni penodedig? Dewiswch bob un sy'n berthnasol:

- Costau ailddylunio deunydd pecynnu
- Costau prynu labeli 'nid ar gyfer yr UE', fel sticeri

- Costau ychwanegol ar gyfer staff neu lafur
- Costau deunydd pecynnu sy'n cael ei wastraffu o ganlyniad i ail-labelu
- Costau lle storio ychwanegol – er enghraifft, rhentu warws ychwanegol
- Costau cludiant ychwanegol – er enghraifft, oherwydd bod angen gwahanu nwyddau a fwriedir ar gyfer yr UE oddi wrth y rheini a fwriedir ar gyfer Prydain Fawr
- Costau gwahanu llinellau cynhyrchu – er enghraifft, gwahanu cynnyrch Prydain Fawr oddi wrth y rhai a fwriedir ar gyfer marchnadoedd eraill
- Dim cost ychwanegol
- Arall - rhowch fanylion

C18a. Rhowch amcangyfrif o gostau posibl y canlynol:

Dylech gynnwys amcangyfrifon o'r costau lle bo hynny'n bosibl.

Ail-ddylunio pecynnau:

- Cost untro
- Cost flynyddol barhaus
- Ddim yn gwybod
- Ddim yn berthnasol

Amcangyfrif o'r gost untro: [testun agored]

Amcangyfrif o'r gost flynyddol barhaus: [testun agored]

Prynu labeli 'nid ar gyfer yr UE':

- Cost untro
- Cost flynyddol barhaus
- Ddim yn gwybod
- Ddim yn berthnasol

Amcangyfrif o'r gost untro: [testun agored]

Amcangyfrif o'r gost flynyddol barhaus: [testun agored]

Llafur ychwanegol:

- Cost untro
- Cost flynyddol barhaus
- Ddim yn gwybod
- Ddim yn berthnasol

Amcangyfrif o'r gost untro: [testun agored]

Amcangyfrif o'r gost flynyddol barhaus: [testun agored]

Deunydd pecynnu a wastraffwyd

- Cost untro
- Cost flynyddol barhaus
- Ddim yn gwybod
- Ddim yn berthnasol

Amcangyfrif o'r gost untro: [testun agored]

Amcangyfrif o'r gost flynyddol barhaus: [testun agored]

Lle storio ychwanegol:

- Cost untro
- Cost flynyddol barhaus
- Ddim yn gwybod
- Ddim yn berthnasol

Amcangyfrif o'r gost untro: [testun agored]

Amcangyfrif o'r gost flynyddol barhaus: [testun agored]

Cludiant ychwanegol:

- Cost untro
- Cost flynyddol barhaus
- Ddim yn gwybod
- Ddim yn berthnasol

Amcangyfrif o'r gost untro: [testun agored]

Amcangyfrif o'r gost flynyddol barhaus: [testun agored]

Llinellau cynhyrchu ychwanegol:

- Cost untro
- Cost flynyddol barhaus
- Ddim yn gwybod
- Ddim yn berthnasol

Amcangyfrif o'r gost untro: [testun agored]

Amcangyfrif o'r gost flynyddol barhaus: [testun agored]

Arall – rhestrwch os gwelwch yn dda:

- Cost untro
- Cost flynyddol barhaus
- Ddim yn gwybod
- Ddim yn berthnasol

Amcangyfrif o'r gost untro: [testun agored]

Amcangyfrif o'r gost flynyddol barhaus: [testun agored]

C18b. Pa gyfran gyffredinol o'r costau uchod ydych chi'n rhagweld fydd yn cael eu trosglwyddo i ddefnyddwyr?

- 0%
- 1 i 20%
- 21 i 40%
- 41 i 60%
- 61 i 80%
- 81 i 100%
- Ddim yn gwybod
- Ddim yn berthnasol

**C19. Beth yw manteision cyflwyno'r gofynion labelu arfaethedig i'ch busnes?
Dewiswch bob un sy'n berthnasol.**

- Cynnal neu gynyddu'r ystod o gynhyrchion a gyflenwir i Ogledd Iwerddon
- Cynnal neu gynyddu'r gallu i ddarparu nwyddau o Brydain Fawr i Ogledd Iwerddon
- Arbedion cost o leihau gwastraff o linell gynhyrchu ar gyfer y DU gyfan
- Llai o ofynion llafur oherwydd logisteg symlach cael llinell gynhyrchu ar gyfer y DU gyfan
- Arbed costau yn sgil gofynion storio gwell yn sgil cael llinell gynhyrchu ar gyfer y DU gyfan
- Llai o gostau cludo yn sgil cael llinell gynhyrchu ar gyfer y DU gyfan
- Llai o ofynion rhestr stoc yn sgil cael llinell gynhyrchu ar draws y DU
- Dim manteision ychwanegol
- Arall - rhowch fanylion

C19a. Rhowch amcangyfrif o'r arbedion cost posibl yn sgil y canlynol:

Dylech gynnwys amcangyfrifon o'r arbedion cost lle bo hynny'n bosibl.

Llai o ddifetha cynnyrch:

- Arbediad cost untro
- Amcangyfrif o'r arbediad cost blynyddol
- Ddim yn gwybod
- Ddim yn berthnasol

Amcangyfrif o'r arbediad cost untro: [testun agored]

Amcangyfrif o'r arbedion cost blynyddol parhaus: [testun agored]

Llai o gostau llafur:

- Arbediad cost untro
- Amcangyfrif o'r arbediad cost flynyddol
- Ddim yn gwybod
- Ddim yn berthnasol

Amcangyfrif o'r arbediad cost untro: [testun agored]

Amcangyfrif o'r arbedion cost blynyddol parhaus: [testun agored]

Storio'n well:

- Arbediad cost untro
- Amcangyfrif o'r arbediad cost flynyddol
- Ddim yn gwybod
- Ddim yn berthnasol

Amcangyfrif o'r arbediad cost untro: [testun agored]

Amcangyfrif o'r arbedion cost blynyddol parhaus: [testun agored]

Costau cludiant is:

- Arbediad cost untro
- Amcangyfrif o'r arbediad cost blynyddol

- Ddim yn gwybod
- Ddim yn berthnasol

Amcangyfrif o'r arbediad cost untro: [testun agored]

Amcangyfrif o'r arbedion cost blynyddol parhaus: [testun agored]

Llai o linellau cynhyrchu:

- Arbediad cost untro
- Amcangyfrif o'r arbediad cost blynyddol
- Ddim yn gwybod
- Ddim yn berthnasol

Amcangyfrif o'r arbediad cost untro: [testun agored]

Amcangyfrif o'r arbedion cost blynyddol parhaus: [testun agored]

Arall – rhestrwch os gwelwch yn dda:

- Arbediad cost untro
- Amcangyfrif o'r arbediad cost blynyddol
- Ddim yn gwybod
- Ddim yn berthnasol

Amcangyfrif o'r arbediad cost untro: [testun agored]

Amcangyfrif o'r arbedion cost blynyddol parhaus: [testun agored]

C20. A oes modd cynnwys yr amserlenni arfaethedig ar gyfer y newidiadau labelu hyn fel rhan o drefn arferol eich busnes o newid labeli?

Os yw'r newidiadau arfaethedig i labeli'n effeithio ar eich busnes, ond nad ydych yn disgwyl gorfod mynd ati'n uniongyrchol i gyflwyno labeli ar gyfer rhai o'r cynhyrchion yr effeithir arnynt neu bob un ohonynt, atebwch hyd eithaf eich dealltwriaeth.

- Oes – yn llawn
- Oes – yn rhannol
- Nac oes
- Ddim yn gwybod
- Ddim yn berthnasol

Os nac oes, esboniwch pam.

[testun agored]

Effeithiau ehangach

C21a. Rwy'n rhagweld y byddai'r gofynion labelu arfaethedig yn cael effaith untro neu effaith i ddechrau ar fy musnes yn y ffyrdd canlynol:

	Gostyngiad sylweddol	Gostyngiad bychan	Dim newid	Cynnydd bychan	Cynnydd sylweddol	Ddim yn gwybod	Ddim yn berthnasol
Elw mae fy musnes yn ei wneud							
Yr ystod o nwyddau neu wasanaethau y mae fy musnes yn eu darparu i ddefnyddwyr neu fusnesau yng Ngogledd Iwerddon							
Yr ystod o nwyddau neu wasanaethau y mae fy musnes yn eu darparu i ddefnyddwyr neu fusnesau ym Mhrydain Fawr							
Pa mor hawdd yw masnachu â Phrydain Fawr							
Pa mor hawdd yw masnachu â Gogledd Iwerddon							
Pa mor hawdd yw masnachu gyda							

Gweriniaeth Iwerddon							
Pa mor hawdd yw masnachu â'r UE							
Pa mor hawdd yw masnachu â gweddill y byd							

C21b. Rwy'n rhagweld y byddai'r gofynion labelu arfaethedig yn cael effaith untro neu effaith i ddechrau ar fy musnes yn y ffyrdd canlynol:

	Gostyngiad sylweddol	Gostyngiad bychan	Dim newid	Cynnydd bychan	Cynnydd sylweddol	Ddim yn gwybod	Ddim yn berthnasol
Elw mae fy musnes yn ei wneud							
Yr ystod o nwyddau neu wasanaethau y mae fy musnes yn eu darparu i ddefnyddwyr neu fusnesau yng Ngogledd Iwerddon							
Yr ystod o nwyddau neu wasanaethau y mae fy musnes yn eu darparu i ddefnyddwyr							

neu fusnesau ym Mhrydain Fawr							
Pa mor hawdd yw masnachu â Phrydain Fawr							
Pa mor hawdd yw masnachu â Gogledd Iwerddon							
Pa mor hawdd yw masnachu gyda Gweriniaeth Iwerddon							
Pa mor hawdd yw masnachu â'r UE							
Pa mor hawdd yw masnachu â gweddill y byd							

C22. Beth yw'r tebygolrwydd y bydd eich busnes yn gwneud y newidiadau canlynol mewn ymateb i'r newidiadau arfaethedig i'r drefn labelu? (Gallai hyn fod o ganlyniad i weithred uniongyrchol gan eich busnes, neu o ganlyniad i weithredoedd busnesau mewn rhanau eraill o'ch cadwyn gyflenwi.)

	Annhebygol iawn	Eithaf annhebygol	Ddim yn debygol nac yn annhebygol	Eithaf tebygol	Tebygol iawn	Ddim yn gwybod	Ddim yn berthnasol
Cynyddu'r costau i							

ddefnyddwyr							
Newid fy model busnes							
Newid fy nghadwyn gyflenwi							
Rhoi'r gorau i fasnachu'n gyfan gwbl (eich busnes yn cau)							

C23. Beth yw'r tebygolrwydd y bydd busnesau eraill yn eich cadwyn gyflenwi'n gwneud y newidiadau canlynol mewn ymateb i'r newidiadau arfaethedig i'r labeli? (Gallai hyn fod o ganlyniad i weithred gan eich busnes, neu o ganlyniad i weithredoedd busnesau mewn rhannau eraill o'ch cadwyn gyflenwi.)

	Annhebygol iawn	Eithaf annhebygol	Ddim yn debygol nac yn annhebygol	Eithaf tebygol	Tebygol iawn	Ddim yn gwybod	Ddim yn berthnasol
Cynyddu'r costau i ddefnyddwyr							
Newid fy model busnes							
Newid fy nghadwyn gyflenwi							
Rhoi'r gorau i fasnachu'n gyfan gwbl (eich busnes yn cau)							

C26. Pa gymorth fyddai ei angen arnoch gan lywodraeth y DU i roi'r newidiadau arfaethedig i labeli ar waith?

- Testun agored

C27. Ydych chi'n fodlon i ni gysylltu â chi i roi rhagor o wybodaeth am eich ymatebion i'r ymgynghoriad hwn?

- Ydw
- Nac ydw
- Ddim yn berthnasol

Adborth Ymgynghoreion i'r Arolwg Ar-lein

Diolch am roi o'ch amser i gymryd rhan yn yr arolwg ar-lein hwn. Byddem yn gwerthfawrogi pe baech yn rhoi syniad inni o sut, yn eich barn chi, byddai modd gwella'r adnodd ac unrhyw feysydd unigol, drwy lenwi ein holiadur adborth.

C28. Yn gyffredinol, pa mor fodlon ydych chi ar ein hadnodd ymgynghori ar-lein?

- Bodlon iawn
- Bodlon
- Ddim yn fodlon nac yn anfodlon
- Anfodlon
- Anfodlon iawn
- Ddim yn gwybod

Rhowch unrhyw sylwadau sydd gennych am yr adnodd, gan gynnwys awgrymiadau ar sut y gallem ei wella.